


Rhif: 27

Enw'r Ardal Cymeriad Morwedd: *Ynys Gwales a'r Smalls*

ACM27:Ynys Gwales a'r Smalls

Disgrifiad Cryno

Mae'r ardal forol noeth hon, wedi'i lleoli i'r gorllewin o Ynys Sgomer, yn barhad o grib creigwely folcanaidd. Ynys Gwales yw'r dirwedd agosaf at yr arfordir ac mae'n enwog am ei nythle mawr gwylanwyddau. Mae'r creigiau eraill yn rhai bach neu o dan y dŵr ar ffurf riffiau ac yn beryglus i longau. Bydd plymwyr a bywyd gwyllt yn ymweld â nhw. Mae goleudy tal ar greigiau y Smalls.

Nodweddion Allweddol

- Mae'r môr uwchben crib folcanaidd alltraeth sy'n streicio o'r dwyrain i'r gorllewin ac yn ymestyn i'r gorllewin o Sgomer.
- Mae ynys Gwales yn ynys anghysbell a gerwin a fywiogir gan nythle gwylanwyddau mawr, a sy'n ymddangos fel petai wedi'i liwio'n wyn ar un ochr.
- Mae'r Smalls a chreigiau eraill yn ffurfio cyfres o ynisigau creigiog a riffiau ar hyd y crib danddwr, ar yn ail â sianeli cymharol ddwfn.
- Ardal forwedd agored yn arddangos ton straen uchel, cerhyntau cryfion a llif o'r lan a geirwyau môr o gwmpas creigiau.
- Bywyd gwyllt, yn enwedig o gwmpas creigiau, gan gynnwys morfilod a dolffinau.
- Llawer o longdrylliadau yn enwedig o gwmpas y Smalls ac ynys Gwales.
- Mae goleudy'r Smalls yn dynodi'r ffin orllewinol ac yn pwysleisio natur beryglus y

<p>dyfroedd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Peth adloniant gan gynnwys teithiau bywyd gwyllt, hwylio a phlymio. • Ymdeimlad cryf o bellenigrwydd, gwylltineb a thawelwch gyda golygfeydd pell tuag at ac o'r tir mawr ac Ynys Sgomer, ac ymdeimlad o ddrama a bygythiad o gwmpas yr ynisigau creigiog.
Dylanwadau Ffisegol
<p>Mae ynys Gwales (<45m aod) ac ynisigau mwy gorllewinol y Smalls wedi'u ffurfio o lafâu, tyffau a thywodfeini gwrthsafol Grŵp Folcanaidd Siliwraidd Sgomer, ac yn cynrychioli'r rhannau dadoruchuddiedig o grib creigwely sy'n streicio ar aliniad ddwyreiniol-orllewinol oddiar yr arfordir. Mae'r un creigiau yn dod i'r golwg ar hyd streic ar Sgomer ac ar benrhyn Marloes. Mae'r ardaloedd rhwng y llanw yn cynnwys arfordiroedd creigiog o egni mawr, ac mae cerrig mawrion wedi eu gwasgaru wrth droed clogwyni bylchog o dywodfaen a deunydd folcanig. Mae'r gwynt a'r tonnau yn eu herydu drwy rhatiad, athreuliad ac effaith hydrolig.</p> <p>Amgylchynir yr ynisigau gan wely môr bas (<30m), sydd ar ogwydd isel cymhedrol (1-10^o) wedi'i ffurfio o'r graig a graean tywodlyd, a sy'n ysgafelli i raeau tywodlyd mewn dyfroedd gweddol ddwfn (30-60m). Mae'r môr yma'n dioddef ton-straen uchel a cherhyntau llanwol, yn enwedig ar ochr dde-ddeheuol yr ynisigau. Bydd rhai o'r creigiau / ynisigau bach yn cael eu dadorchuddio gan y llanw, tra bod creigiau eraill yn aros yn barhaol o dan ddŵr bas. Mae'r cerhyntau llanwol yn llifo i'r gogledd a'r de, ac mae llif y cerrynt <3 not. Yr amrediad llanwol yw ~6m.</p> <p>Mae'r ardal yn rhan o ACA Forwedd Sir Benfro.</p>
Dylanwadau Diwylliannol
<p>Yn hanesyddol yn rhan o'r llwybrau masnach Gorllewinol o'r cyfnod cyn-hanes hyd at y presennol, gan arddangos rôl bosib Lychlynaidd, neu Gristnogol Gynnar. I longau yn hwylio i'r de drwy Fôr Iwerddon, roedd y Smalls, a'r Hats and Barrels cyfagos, ynghyd â'r crychdonau llanwol ffyrnig yn fygythiad marwol ac wedi achosi llawer llongdrylliad.</p> <p>Mae dynolryw wedi byw ar ynys Gwales ers cyn-hanes; mae strwythurau wedi dod i'r golwg, diolch i effeithiau cawstig gwano adar y môr. Mae'n bosib bod y strwythurau hirsgwar yn dyddio o gyfnod y Llychlynwyr, neu o'r cyfnod Cristnogol Gynnar. Darganfuwyd carn cleddyf Llychlynaidd yn dyddio o'r 11eg ganrif yn rîff y Smalls; roedd naill ai wedi syrthio dros ochr llong neu'n perthyn i longdrylliad nad oes unrhyw ôl arall ohoni wedi'i darganfod hyd yn hyn. Mae'r llonddrylliadau a gofnodwyd gan fwyaf o amgylch y Smalls, ac yn cynnwys y Clan Macduff, agerlong deithwyr a ddrylliwyd mewn storm (1881), y Rowena (1893), y Cambro (1913), a'r Ribicia (1929). Mae rhai ohonynt yn gorwedd oddiar ynys Gwales gan gynnwys y Mersey (1876), y Dalserf, agerlong lo (1910) a'r Walter L Russ (1943). Defnyddiwyd yr ynys fel targed ymarfer bomio gan Luoedd Awyr yr Unol Daleithau yn ystod yr Ail Ryfel Byd, gan adael tyllau a darnau bach o fomiau ar ôl.</p> <p>Bach iawn sy'n weddill o'r goleudy ar bolion a godwyd yn y 18^{fed} ganrif; adeiladwyd y tŵr presennol, adeilad rhestredig, yn 1861. Does dim henebion rhestredig.#</p> <p>Mae'r enwau llefydd - 'hats' a 'barrels', 'tump' a 'gut' - o ddiddordeb. Cysylltir y Smalls â'r Crynwr, John Phillips, meistr Doc St. George, Lerpwl, a gododd prydles yn 1773 ac a adeiladodd y goleudy cyntaf.</p> <p>Mae plymio ar, ac o gwmpas, ynys Gwales a'r Smalls yn boblogaidd ond yn gofyn am y llongau plymio mwy sylweddol sy'n hwylio o Aberdaugleddau a Bae Sain Ffraid. Bydd teithiau llong bywyd gwyllt yn ymweld â'r brigadau hyn, ynys Gwales am ei nythfa gwylanwyddau, er bod rheoli ar fynediad iddo, ac i'r Smalls am y cyfle i weld morfilod a'u tebyg. Mae llwybr criwsio arfordirol, sy'n gweld defnydd trwm, yn pasio drwy'r ardal ac yn cysylltu Aberdaugleddau gyda Sgomer a manau i'r gogledd ar draws Bae Sain Ffraid ac i'r gorllewin o'r Iwerddon ac, yn ogystal, bydd cychod modur yn tramwyo'r ardal.</p> <p>Mae pysgota'r ardal yn cynnwys rhwydi gosod sy'n osgoi'r ynisigau creigiog, a photio cimychiaid</p>

<p>a chrancod. Mae gan oleudy'r Smalls olau mordwyaeth, begwn radar a chorn niwl. Yn y gorffennol rhoddwyd trwydded Rownd 24 i'r ardal ar gyfer olew a nwy a gellir gwneud ceisiadau yn y dyfodol. Mae'r ardal hefyd yn domen ysbwriel ffrwydron (nad yw'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd)</p>
<p>Nodweddion esthedig, canfyddiadol a phrofiadol</p> <p>Ni ymwelwyd â'r ardal, er bu ymweliad â'r dyfroedd i'r dwyrain i ynys Sgomer. Y disgwyl yw y byddai'r holl ardal yn teimlo'n ddiarffordd, yn lledu rhwng 7 a 26km i'r gorllewin o Sgomer. Byddai rhannau o'r arfordir hwn, megis Carn Llundain neu Sgomer, yn weladwy o bwyntiau agosach mewn gweledydd da, ac fe fyddai'n ymddangos fel llinell un-dimensiwn gyda lliwiau syml ar y gorwel.</p> <p>Mae i'r ardal gymeriad syml, cyson ac unedig ar raddfa eang iawn, gydag ymdeimlad arwyddocaol o fod yn agored, yn unig a noeth. Gwales yw'r unig ynys y mae'n bosib ei hadnabod gyda'i nythfa fawr (c.60, 000) o wylanwyddau sy'n creu'r argraff o dorf gwyn (oherwydd plu a gwano'r adar) ar ochr ogleddol yr ynys. Dyma olygfa fywyd gwyllt sy'n codi arswyd ar ddyd a'r disgwyl yw y byddai'r adar yn rhoi iddi'r ymdeimlad o symudiad deinamig iawn, a byddai'r arogleuon yn gryf wrth symud yn agosach. Mae'r goleudy trawiadol, tal ac unig ar greigiau'r Smalls yn ein hatgoffa ni o'r peryglon hyn; dyma brif ffynhonnell golau yr ardal a'r unig farc a wnaethpwyd gan ddynolryw, ac mae hyn yn dwysau'r naws am le. Prin ymddangos ar wyneb y dŵr y mae creigiau'r Barrels, ar ffurf rîff fygythiol.</p> <p>Mae'r nodweddion yn cael eu pennu bron yn gyfangwbl gan rymoedd naturiol dŵr, drwy ymchwydd y môr a'r tonnau a'r gwynt, er bod yr ynys a'r creigiau, o dan rhai amodau, yn cyfrannu drama at y morlun, gyda'r tonnau'n hurddio a distrych y don yn chwistrellu drostynt. Mae'r ardal yn agored i wyntoedd o'r de-orllewin ac ar adeg tywydd garw mae'r môr yn debyg o deimlo'n fygythiol iawn, yn enwedig pan yn agos at yr ynys a'r creigiau. Mae na debygolrwydd cryf o dawelwch ac ymdeimlad o wylltineb a phellenigrwydd yn yr ardal hon. Mae bywyd gwyllt, yn enwedig o gwmpas yr ynys a'r creigiau, yn dwysau coethder y profiad o'r forwedd.</p> <p>Bydd cychod bach a ddefnyddir ar gyfer gwyllo bywyd gwyllt, hwylio a phlymio yn amlwg ac, yn ystod y tymor, yn lleihau'r ymdeimlad o bellnigrwydd a thawelwch. Mae'n bosib y bydd llongau masnach, yn cadw pellter synhwyrol, i'w gweld o bryd i'w gilydd.</p> <p>O'r tir mawr mae'r ardal yn ffurfio rhan o'r golygfeydd gwych nas difethwyd o Sgomer a gogledd arfordir Bae Sain Ffraid a Llwybr yr Arfordir.</p>
<p>Buddion a gwasanaethau diwylliannol</p> <p>Mae'r ardal yn cyfrannu at wasanaethau hamdden ac adloniant ar ffurf adloniant morol, at dreftadaeth naturiol ar ffurf bywyd gwyllt yn, ac o gwmpas, yr ynysoedd a'r ynisigau ac at ardal forol nas difethwyd sy'n weladwy o arfordiroedd sensitif y Parc Cenedlaethol, ac at wasanaethau diwylliannol ac ysbrydol o ran yr ymdeimlad o wylltineb ac o fod yn un â byd natur, a'r diddordeb sydd yn safleoedd y llongdrylliadau.</p>

Rhesymau dros newid									
Crynodeb	Rhesymau allweddol dros newid								
<p>Erydiad arfordirol araf clogwyni creigiog. Cynllun rheoli'r traethlin: Gwneud dim byd.</p> <p>Gall cynnydd mewn traffig llongau masnachol i Aberdaugleddau leihau llonyddwch.</p> <p>Gall cynnydd mewn crefft hamdden gan gynnwys teithiau leihau llonyddwch.</p> <p>Byddai trwyddedau ar gyfer olew a nwy yn y dyfodol yn newid cymeriad yr ardal pe bai'n cael ei datblygu.</p>	Rhinweddau Arbennig	Prosesau naturiol/newid hinsawdd	Gwasgedd ymwelwyr	Defnydd morol - masnachol a physgota	Ynni'r tir mawr neu fwynau	Gwasgedd datblygiad	Newidiadau rheoli tir	Defnydd MOD	
	Ysblander yr Arfordir								
	Ynysoedd								
	Amrywiaeth y Tirlun								
	Pellenigrwydd, Tawelwch a Diffeithwch								
	Daeareg Amrywiol								
	Cyfoeth Cynefinoedd a Bioamrywiaeth								
	Archeoleg Gyfoethog								
	Cymeriad Anheddiad Nodedig								
	Treftadaeth Ddiwylliannol								
	Mynediad i'r Parc								
	Lle i Anadlu								
	Allwedd		Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisedig.						
	Sensitifeddu allweddol								
Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd				Ffactorau sy'n tynnu wrth sensitifrwydd					
<p>Cymeriad syml, agored, gwyllt ac anghysbell gyda golygfeydd o'r arfordir a'r ynysoedd gorllewinol.</p> <p>Mae'n ffurfio rhan o leoliad agored yr arfordir a'r ynysoedd gorllewinol y mae Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro yn edrych drostynt, gan gyfrannu at yr ymdeimlad o bellenigrwydd a gwylltineb yn yr ardaloedd hyn.</p> <p>Gwerth cadwraeth y Môr a Gwales.</p> <p>Llwybr Arfordir Cymru a Sir Benfro fel derbynnydd sensitif yn edrych dros yr ardal o bell.</p>				Presenoldeb deifio a chychod hamdden eraill.					

